**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 28 Awst 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | P K Jones |
| D W W Thomas | W G Lewis | |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): K M Griffiths, Y V Jardine a/ac S M Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

5 **Monitro Perfformiad**

Roedd Julie Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol er mwyn briffio'r Panel ar yr adroddiad ar gyfer Mehefin 2019.

Pwyntiau i'w trafod:

- Tudalen 15 - Nifer y Plant sydd Ar Goll - Caiff yr wybodaeth ei dadgyfuno er mwyn nodi sawl un sy'n dod o Abertawe
- Tudalen 16 - Poblogaeth y Plant sy'n Derbyn Gofal - Wedi lleihau ym mis Mehefin ac eto ym mis Gorffennaf. Mae cyfraddau ailgyfeirio hefyd yn lleihau. Cynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn y 12 mis diwethaf, ond wrth edrych ar dueddiadau mae'n ymddangos bod lefelau wedi sefydlu  Rydym yn mynd yn groes i'r duedd yn Abertawe. Mae cyfraddau'n cynyddu mewn mannau eraill.
- Holodd y panel ynghylch nifer y plant sydd mewn cartrefi preswyl yn Abertawe.
- Hoffai'r panel weld ffigurau ar absenoldeb staff.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn dda iawn. Disgwylir i'r adran fod yn brysurach ym mis Medi oherwydd bydd yr ysgolion yn brysur a bydd cynnydd mewn gweithgareddau wrth y drws blaen ond nid oes disgwyl i unrhyw beth penodol ddigwydd yn y misoedd nesaf.
- Tudalen 23 - Systemau Mesur Signs of Safety - Mae'r holl feysydd perfformiad ar gyfer Signs of Safety yn isel. Cynhelir cyfarfodydd tîm er mwyn trafod pwysigrwydd ac effaith hyn. Mehefin yw'r mis cyntaf o goladu'r data hwn. Roedd problemau wrth gofnodi'r gwaith hwn a chael gwybodaeth o PARIS. Bydd yr adran yn trosglwyddo i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a dylai'r broses gofnodi data wella.
- Gofynnodd y Panel a ellid atodi Rhestr o Dermau i'r Adroddiad Monitro Perfformiad yn y dyfodol.
- Mae gan yr adran gynllun mentora ac mae uwch-swyddogion yn eistedd ar rai o'r byrddau o hyd, gan gynnwys y Bwrdd Sefydlogrwydd, er mwyn sicrhau bod arfer wrth wraidd yr hyn a wnânt.
- Mae gan yr adran berthynas dda â'r llysoedd. Mae nifer yr achosion sy'n mynd i'r llys yn lleihau.

Camau Gweithredu:

- Bydd Pennaeth y Gwasanaeth yn darparu ffigur ar nifer y plant mewn cartrefi preswyl.
- Bydd ffigurau absenoldeb staff yn cyrraedd yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Hydref.
- Caiff y rhestr o dermau ei chynnwys gydag Adroddiadau Monitro Perfformiad yn y dyfodol.

6 **Adborth ar Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru - Y Diweddaraf am y Cynllun Gweithredu**

Rhoddodd Julie Thomas y diweddaraf i'r panel am y cynnydd a wnaed ar y pum prif faes i'w gwella fel y nodwyd yn Adroddiad Arolygu AGC ym mis Awst 2018.

Mae rhai o'r amserlenni amser wedi llithro'n sylweddol. Dyma ddarn mawr o waith sy'n gofyn am newid diwylliannol wrth barhau i gynnal gwasanaeth diogel.

Camau Gweithredu:

- Bydd Pennaeth y Gwasanaeth yn dosbarthu'r cylchlythyr i'r Panel.

## 7 Adolygiad o Berfformiad yr Awdurdod Lleol gan Arolygiaeth Gofal Cymru

Roedd Simon Jones, Swyddog Gwella Strategaeth a Pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi briffio'r panel ar yr eitem hon gan gynnwys rhoi trosolwg o'r adolygiad perfformiad blynyddol a gynhaliwyd gan AGC a'r llythyr at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n crynhoi gwerthusiad perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2018/19. Mae trefniadau newydd yng nghynllun adolygiad perfformiad blynyddol AGC ar gyfer 2019/20.

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, bydd AGC yn treialu cyd-arolygiad o'r trefniadau amddiffyn plant ac yn canolbwyntio ar fynd ar drywydd meysydd i'w gwella yn dilyn arolygiad, deilliannau dysgu i blant gan ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth a'r gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf.

Pwyntiau i'w trafod:

- Fel Awdurdod, mae angen i ni ystyried olyniaeth. Mae ychydig o gynllunio olyniaeth ar waith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r adran yn ceisio sicrhau ei dyfodol er mwyn darparu gweithlu sefydlog yn y dyfodol.
- Mae peth pryder ynglŷn â'r cyfeiriad at forâl yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn yr adroddiad arolygu. Mae elfen Abertawe o'r GTI yn dychwelyd i Abertawe ac mae ganddi fwrdd a chynllun gweithredu newydd ar waith. Bydd hon yn eitem yn ystod cyfarfod y Panel ar 28 Hydref.
- Mae'r Panel yn hapus gyda'r adolygiad o berfformiad a'r llythyr.

## 8 Amserlen y Rhaglen Waith ar gyfer 2019/20

Bu'r panel yn ystyried y rhaglen waith.

Ychwanegwyd sesiwn friffio ar Asesiadau Gofalwyr Ifanc at y Rhaglen Waith ar 24 Chwefror 2020.

## 9 Llythyrau

Cafodd llythyr ei dderbyn a'i ystyried gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm